Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

CYMDEITHASEG

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Dylai ymgeiswyr ateb **DAU** gwestiwn

---

1. Sut mae newid cymdeithasol yn digwydd? Trafodwch gan ddefnyddio dwy enghraifft.

2. Trafodwch a yw'r system addysg yn atgynhyrchu neu'n lliniaru anghyfartaleddau yn y gymdeithas. Defnyddiwch enghreifftiau sy'n ymwneud â NAILL AI dosbarth NEU rywedd NEU 'hil'/ethnigrwydd yn eich ateb.

3. Beth yw strwythurau cymdeithasol a pham ydyn nhw'n bwysig mewn cymdeithaseg? Defnyddiwch enghreifftiau penodol er mwyn cefnogi eich dadl.

4. Pa ddamcaniaethwr cymdeithasegol ydych chi wedi'i gael yn fwyaf defnyddiol wrth astudio Cymdeithaseg Safon Uwch? Cyfiawnhewch eich dewis.

5. A yw astudio cymdeithaseg wedi newid sut rydych yn deall eich bywyd eich hunan? Os felly, sut?

6. 'Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gwaethygu anghyfartaleddau sydd eisoes yn bodoli.' Trafodwch y gosodiad hwn yn feirniadol, gan ddefnyddio UN enghraifft o 'hil'/ethnigrwydd NEU ddosbarth NEU rywedd.

7. Beth yw rôl crefydd mewn cymdeithas? Trafodwch gan ddefnyddio persbectifau gwahanol.

8. Dim ond fel modd o sicrhau rheolaeth gymdeithasol y mae'r cysyniad o drosedd yn bodoli. Trafodwch.

9. A yw'r dulliau a ddefnyddir er mwyn gwneud ymchwil cymdeithasegol yn unigryw i gymdeithaseg?

10. Beth yw'r sefydliadau a strwythurau cymdeithasol allweddol sydd wedi helpu i ddiffinio rôl menywod yn y gymdeithas? Sut mae menywod wedi ceisio diffinio ac ailddiffinio'r rolau hyn?